# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 5 Hydref 2020

Amser: 09.30 - 10.56

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6469

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mick Antoniw AS (Cadeirydd)<br>Carwyn Jones AS<br>Dai Lloyd AS<br>Suzy Davies AS (yn lle David Melding AS) |
| Tystion: | Kirsty Williams AS, Y Gweinidog Addysg<br>Georgina Haarhoff, Llywodraeth Cymru<br>Ceri Planchant, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Rhiannon Lewis (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

Cafwyd ymddiheuriadau gan David Melding AS. Roedd Suzy Davies AS yn bresennol fel dirprwy.

## 2 Y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru): Sesiwn dystiolaeth

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog Addysg mewn perthynas â’r Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru).

## 3 Offerynnau nad ydynt yn codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

### 3.1 SL(5)622 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) (Abertawe a Chaerdydd) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

### 3.2 SL(5)624 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 15) (Bro Morgannwg, Castell-nedd Port Talbot a Torfaen 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

## 4 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 4.1 SL(5)621 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 4.2 SL(5)619 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 4.3 SL(5)620 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) (Llanelli etc.) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 5 Papur(au) i'w nodi

### 5.1 Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Ategol (Memorandwm Rhif 4) Llywodraeth Cymru ar y Bil Amaethyddiaeth.

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig.

### 5.2 Llythyr gan y Prif Weinidog at y Llywydd: Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) – darpariaethau mewn perthynas â threfniadau ariannu ac atebolrwydd y Comisiwn Etholiadol

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Prif Weinidog at y Llywydd.

### 5.3 Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Pysgodfeydd

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ac, mewn sesiwn breifat, cytunwyd i ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn am eglurhad brys am nifer o faterion yn ymwneud â'r Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a Bil Pysgodfeydd y DU.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

## 7 Y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru): Trafod y dystiolaeth

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd yn ystod y sesiwn gyda'r Gweinidog Addysg a chytunwyd i drafod ei adroddiad drafft mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 8 Diweddariad ar Fil Marchnad Fewnol y DU

Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â Bil Marchnad Fewnol y DU.